

Cylchlythyr TAG Daearyddiaeth, Mai 2019

Gobeithio y bydd y cylchlythyr hwn yn ddefnyddiol i chi wrth gynllunio ar gyfer yr arholiadau sydd i ddod a gweddill y flwyddyn academaidd. Cofiwch hefyd, os oes gennych unrhyw gwestiynau, bod croeso i chi gysylltu bob amser.

CYFLWYNO YMCHWILIADAU ANNIBYNNOL

Diolch am wneud pob ymdrech i gyflwyno ymchwiliadau enghreifftiol i gymedrolwyr erbyn 29 Mawrth. Ar ddiwrnod cyhoeddi'r canlyniadau, bydd pob canolfan yn derbyn adborth manwl drwy'r wefan ddiogel ar y samplau Ymchwiliadau Annibynnol a gyflwynwyd. Gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen eich adroddiad yn ofalus.

Gan y bydd llawer ohonoch yn tywys eich myfyrwyr drwy gamau cynllunio'r Asesiad Di-arholiad yn ystod tymor yr haf, hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i bwysleisio rhai pwyntiau pwysig:

- Dylai'r holl deitlau a chwestiynau ymchwil fod â'u gwreiddiau **ynghynnwys y fanyleb** a chyfrifoldeb yr athro yw trafod teitlau gydag ymgeiswyr i sicrhau eu bod ar y trywydd cywir. Os nad yw canolfan yn sicr a yw teitl yn addas, yna dylech ddefnyddio'r **Gwasanaeth Cyngor am Deitlau**. Mae holl fanylion y gwasanaeth hwn i'w gweld ar dudalen gartref TAG Daearyddiaeth CBAC.
- Rhowch wybod i'ch myfyrwyr am ganllawiau'r Cyd-gyngor Cymwysterau ar nifer geiriau a'u hysbysu o'r cychwyn na ddylent fod yn cyflwyno ymchwiliadau dros 4,000 o eiriau o hyd. Mae'n bwysig bod teitlau'n cael eu mireinio er mwyn sicrhau bod cwmpas yr ymchwiliad yn derbyn sylw o fewn y terfyn geiriau a argymhellir. Rhaid i'r ymchwiliadau fod yn gryno gyda ffocws drwyddi draw er mwyn ennill marciau yn y bandiau uchaf.

DYDDIADAU ALLWEDDOL HAF 2019

Arholiad Uned 1	14 Mai PM	Arholiad Uned 4	13 Mehefin PM
Arholiad Uned 2	21 Mai AM		
Arholiad Uned 3	6 Mehefin PM	Diwrnod y Canlyniadau	15 Awst

DATBLYGIAD PROFFESIYNOL

Bydd sesiynau hyfforddi 2019-20 CBAC yn berthnasol i addysgu lefel TGAU a TAG Daearyddiaeth:

- Daearyddiaeth, Gwneud penderfyniadau – ffyrdd creadigol o fynd ati i werthuso a gwneud penderfyniadau yn yr ystafell ddosbarth daearyddiaeth
- Gwaith maes – gwneud gwaith maes ysbrydoledig sy'n seiliedig ar leoedd, gosod cwestiynau ymholiad da a chasglu data ystyrion

Bydd manylion pellach yn dilyn ar y dudalen DPP yn ddiweddarach y tymor hwn. Edrychwn ymlaen at eich gweld chi yno.



Y BWLETIN NESAF

Bydd y bwletin nesaf yn cael ei anfon ym mis Medi. Yn y cyfamser, hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddymuno pob llwyddiant i'ch myfyrwyr yn ystod y gyfres arholiadau sydd i ddod.

Erin Roberts

Swyddog Pwnc

TAGDaearyddiaeth@cbac.co.uk